



Polisi Cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Awdur: David Finney
Adolygiad: 1
Dyddiad Adolygu: Hydref 2019

Dyddiad: Mai 2018
Adolygwyd: Mai 2018

Cynnwys

Rhagarweiniad
Diffiniadau
Cwmpas
Yr Egwyddorion
Ein Gweithdrefnau
Categoriâu arbennig o wybodaeth bersonol
Cyfrifoldebau
Hawliau Unigolion
Rhybuddion Preifatrwydd
Ceisiadau am Fynediad i Wybodaeth
Hawliau i gael dileu gwybodaeth
Trydydd Partion
Archwiliadau, monitro & hyfforddiant
Adrodd ar achos o dorri
Polisiau Ategol

Rhagarweiniad

Mae Grŵp TTC yn ymroddedig i warchod hawliau a rhyddid pobl sy'n rhoi data, ac i brosesu'n ddiogel eu data yn unol â phob un o'n rhwymedigaethau cyfreithiol.

Rydym yn cadw data personol am ein cyflogeion, ein cleientiaid, ein cyflenwyr ac unigolion eraill am sawl rheswm masnachol.

Mae'r polisi hwn yn esbonio sut rydym yn ceisio gwarchod data personol a sicrhau bod ein staff yn deall y rheolau ynglŷn a'r defnydd o ddata personol y maent yn cael mynediad ato tra eu bod yn gweithio. Yn benodol, o dan y polisi hwn mae'n ofynnol ar y staff i sicrhau ymgynghoriad â'r Swyddog Gwarchod Data (DPO) cyn i unrhyw weithred prosesu data newydd o sylwedd gychwyn i sicrhau bod y camau cydymffurfio perthnasol yn cael eu cyflawni.

Diffiniadau

Dibenion Busnes	<p>Y dibenion y gellir defnyddio data personol gennym:</p> <p>Dibenion personol, gweinyddol, ariannol, rheoleiddiol, cyflogres a datblygu busnes.</p> <p><i>Mae dibenion Busnes yn cynnwys y canlynol:</i></p> <ul style="list-style-type: none">- <i>Cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoleiddiol a llywodraethu corfforaethol ac ag arfer da</i>- <i>Casglu gwybodaeth fel rhan o archwiliadau gan gyrrff rheoleiddiol neu mewn cysylltiad ag achosion cyfreithiol neu geisiadau</i>- <i>Sicrhau y cydymffurfir â pholisiau busnes (megis polisiau ynghylch e-byst a defnydd y we)</i>- <i>Rhesymau gweithredol, megis cofnodi trafodion, hyfforddi a rheoli ansawdd, sicrhau cyffrinachedd gwybodaeth fasnachol sensitif, fetio diogelwch</i>- <i>Archwilio i gwynion</i>- <i>Gwirio cyfeirnodau, sicrhau arferion gweithio diogel, monitro a rheoli mynediad staff i systemau ac i gyfleusterau, absoneldeb staff, gweinyddiaeth ac asesiadau</i>- <i>Monitro ymddygiad staff, materion disgyblu</i>- <i>Marchnata ein busnes</i>- <i>Gwella gwasanaethau</i>
Data Personol	<p>Mae 'Data Personol' yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n perthyn i berson naturiol wedi ei adnabod neu adnabyddadwy ('gwrthrych data'); Person adnabyddadwy yw rhywun y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, yn enwedig mewn cysylltiad â rhyw ddynodydd megis enw, rhif adnabod, data lleoliad, rhyw ddynodydd ar-lein neu mewn cysylltiad ag un neu ragor o ffactorau sy'n benodol i'r hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, meddwl, economaidd, diwylliannol, neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw.</p>

	<i>Gall data personol gynnwys: rhif ffôn unigolyn, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, hanes gyrru/cefndir (gan gynnwys manylion trwydded), manylion ariannol a chyflog, sgiliau ac addysg, statws priodasol, gwybodaeth feddygol berthnasol, cenedligrwydd, teitl swydd a CV</i>
Categoriâu ddata personol	o Mae categorïau o ddata yn cynnwys gwybodaeth am darddiad hiliol neu ethnig, barnau gwleidyddol, credoau crefyddol neu eu tebyg, aelodaeth Undeb Llafur (neu ddiffyg aelodaeth), iechyd corfforol neu feddyliol, cyflyrau, troseddau, neu achosion cyfreithiol cysylltiedig, gwybodaeth enetig a fiometrïg- dylai unrhyw ddefnydd o gategoriâu data personol gael ei reoli'n llym yn ôl y polisi hwn.
Rheolwr Data	Mae 'Rheolwr Data' yn golygu y person naturiol neu gyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall sy'n penderfynu, ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag eraill, y dibenion a'r dull prosesu data personol; lle y penderfynir y dibenion a dull y fath brosesu gan y gyfraith.
Prosesydd Data	Mae 'Prosesydd' yn golygu y person naturiol neu gyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall sy'n prosesu data ar ran y rheolwr
Prosesu	Mae 'Prosesu' yn golygu unrhyw weithrediad neu res o weithrediadau sy'n cael eu perfformio ar ddata personol, neu ar resau o ddata personol, p'un ai gan ddull awtomatig megis casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, cadw, addasu, newid, canfod, ymgynghori, defnyddio, datgelu trwy drosglwyddo, dosbarthu neu wneud ar gael, alinio neu gyfuno, cyfyngu, dileu neu ddinistrio ai peidio.
Awdurdod Goruchwylio	Hwn yw'r corff cenedlaethol sy'n gyfrifol am warchod data. Yr awdurdod Goruchwylio ar gyfer ein corff yw 'The Information Commissioners Office' (ICO)

Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o'r staff sy'n gorfod bod yn gyfarwydd gyda pholisi hwn a chydymffurfio â'i delerau.

Mae polisi hwn yn ychwanegu at ein holl bolisiau eraill sy'n perthyn i Ddiogelu Data. Efallai y byddwn yn ategu neu newid y polisi hwn trwy bolisiau a chanllawiau ychwanegol o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw bolisi newydd neu addasiad un cael ei ddisbarthu i'r staff cyn iddo gael ei fabwysiadu.

Pwy sy'n gyfrifol am y polisi hwn?

Fel ein swyddog diogelu data (DPO), mae gan David Finney y cyfrifoldeb cyffredinol am weithredu'r polisi hwn o ddydd i ddydd. Dylid cysylltu â'r DPO am wybodaeth bellach am y polisi hwn os oes angen.

David Finney
david.finney@ttc-uk.com
01952 607190

Yr Egwyddorion

Mae Grŵp TTC yn cydymffurfio ag ewyddorion diogelu data (Yr Egwyddorion) a restrir yn yr Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yr UE. Byddwn yn ymdrechu ym mhopeth a wnawn i gydymffurfio â'r egwyddorion hyn. Yr Egwyddorion yw:

1. Cyfreithiol, Teg a Thryloyw

Dylai casglu data fod yn deg, am reswm cyfreithlon, a dylem fod yn agored a thryloyw ynglŷn â sut y defnyddir y data.

2. Cyfyngedig ar gyfer ei ddiben

Gellir casglu data dim ond at ddiben penodol.

3. Data Lleiaf ag sy'n bosibl

Dylai unrhyw ddata wedi ei gasglu fod yn angenrheidiol a pheidio bod yn ormodol ar gyfer ei bwrpas.

4. Cywir

Dylai data rydym yn ei gadw fod yn gywir a chael ei ddiweddarau.

5. Cadw

Ni ellir cadw data yn hirach nac sydd angenrheidiol

6. Uniondeb a Chyfrinachedd

Dylai data rydym yn ei gadw fod yn ddiogel.

Atebolrwydd a Thryloywder

Rydym yn sicrhau atebolrwydd a thryloywder yn ein holl ddefnydd o ddata personol. Rydym yn dangos sut rydym yn cydymffurfio â phob egwyddor trwy wneud cofnod ysgrifenedig o sut mae'r gweithrediadau rydym yn gyfrifol amdanynt yn cydymffurfio â phob un o'r Egwyddorion.

Mae hyn yn cael ei ddiweddarau a dylai gael ei gymeradwyo gan y DPO.

I gydymffurfio â chyfreithiau diogelu data ac â'r egwyddor atebolrwydd a thryloywder GDPR, rydym yn dangos cydymffurfiaeth, ac rydym yn gyfrifol am ddeall ein cyfrifoldebau penodol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r rhwymedigaethau diogelu data canlynol:

- Gweithredu pob mesur technegol a sefydliadol sy'n berthnasol yn llwyr
- Cynnal dogfenniaeth gyfredol a pherthnasol ar bob gweithrediad prosesu
- Gwneud asesiadau effaith diogelu data
- Gweithredu mesurau i sicrhau preifatrwydd yn fwriadol ac yn awtomatig, gan gynnwys:
 - Data Lleiaf ac sy'n bosibl
 - Ffugenwau
 - Tryloywder
 - Canitáu i unigolion fonitro prosesu
 - Creu neu wella diogelwch a gweithdrefnau preifatrwydd yn barhaol

Ein Gweithdrefnau

Prosesu'n deg ac yn gyfreithlon

Rydym yn prosesu data personol yn deg ac yn gyfreithlon yn unol â hawliau unigolion o dan yr egwyddor cyntaf. Mae hyn yn golygu yn gyffredinol nad ydym yn prosesu data personol oni bai fod yr unigolyn dan sylw wedi cydsynio i ni wneud hyn neu fod gennym hawl cytundebol a chyfreithiol i brosesu.

Os na ellir ategu sail gyfreithlon (fel esbonir isod) nid yw ein prosesu yn cydymffurfio â'r egwyddor cyntaf a bydd yn anghyfreithlon. Mae gan Wrthychau Data yr hawl i gael dileu unrhyw ddata a broseswyd yn anghyfreithlon.

Rheoli vs prosesu data

Mae Grŵp TTC yn cael ei ddynodi fel Rheolwr Data a Phoseswr Data. Rydym wedi ein cofrestru mewn dull priodol yn y Swyddfa 'Information Commissioners' ac yn cynnal y fath gofrestrriad er mwyn parhau i reoli a phrosesu data'n gyfreithlon.

TTC Group Ltd – **ZA272769**

TTC 2000 Ltd – **ZA020741**

Cycle Experience Ltd – **ZA166005**

Fel prosesydd data rydym yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cytundebol ac yn gweithredu dim ond ar sail cyfarwyddiadau wedi'u dogfennu gan y rheolwr data. Fel prosesydd data, rydym yn:

- Peidio â defnyddio is-brosesydd heb ganiatâd ysgrifenedig y rheolwr data
- Cydweithio'n llwyr gyda ICO neu gydag awdurdod goruchwyllo arall
- Sicrhau diogelwch y prosesu
- Cadw cofnodion cywir gweithgareddau prosesu
- Rhoi gwybod i'r rheolwr am unrhyw dorri data personol

Os oes unrhyw amheuon ynghylch sut rydym yn trin data, cysylltwch â'r DPO am eglurhad.

Sail Gyfreithlon ar gyfer prosesu data

Rydym yn sefydlu sail gyfreithlon i brosesu data, ac yn sicrhau y bydd gan unrhyw ddata rydym yn gyfrifol am ei reoli sail gyfreithlon ysgrifenedig a gymeradwywyd gan y DPO. Mae sail gyfreithlon i bob un o'n hasedau, sydd wedi ei dogfennu er mwyn rhoi eglurder a thryloywder. Mae o leiaf un o amodau canlynol yn berthnasol lle bynnag rydym yn prosesu data personol:

1. Cydsyniad

Rydym yn meddu ar gydsyniad diweddar, clir, eglur a diffiniedig i ddata yr unigolyn gael ei brosesu at ddiben penodol

2. Cytundeb

Mae prosesu yn angenrheidiol i gyflawni neu i baratoi cytundeb ar gyfer yr unigolyn.

3. Rhwymedigaeth Gyfreithiol

Mae arnom rwymedigaeth gyfreithiol i brosesu'r data (ac eithrio cytundeb)

4. Buddiannau Hanfodol

Mae prosesu'r data yn angenrheidiol i ddiogelu bywyd rhwyun neu mewn sefyllfa feddygol.

5. Swyddogaeth Gyhoeddus

Prosesu sy'n angenrheidiol i gyflawni swyddogaeth gyhoeddus, tasg o fudd cyhoeddus, neu mae gan y swyddogaeth sail eglur yn y gyfraith.

6. Buddiannau Gyfreithlon

Mae prosesu yn angenrheidiol i'n buddiannau cyfreithlon. Nid yw'r amod hon yn berthnasol os oes rheswm da i ddiogelu data personol yr unigolyn, sy'n disodli'r buddiannau cyfreithlon.

Penderfynu pa amod i ddibynnu arni

Tra'n asesu'r sail gyfreithlon, rydym yn penderfynu yn gyntaf fod y prosesu yn angenrheidiol. Mae hyn yn golygu y dylai'r prosesu fod yn ddull priodol, wedi ei dargedu, o gyflawni'r pwrpas a nodwyd. Nid ydym yn dibynnu ar sail gyfreithlon os gallwn gyflawni'r pwrpas hwnnw trwy ddull arall.

Mae ein hymroddiad i'r Egwyddor cyntaf yn ein gorfodi i ddogfennu'r broses a dangos ein bod wedi ystyried pa sail gyfreithlon sy'n perthyn orau i bob un pwrpas prosesu, ac i gyfiawnhau y penderfyniadau hyn.

Rydym hefyd yn sicrhau bod yr unigolion, y mae eu data yn cael ei brosesu gennym, yn cael gwybod y sail gyfreithlon dros brosesu eu data, yn ogystal â'r pwrpas bwriadedig. Mae hyn yn cael ei wneud trwy rybudd preifatrwydd, ac yn berthnasol p'un ai ydym ni wedi casglu'r data yn uniongyrchol oddi wrth yr unigolyn, neu o ffynhonnell arall.

Categoriâu Arbennig o ddata personol

Beth yw categorïau arbennig o ddata personol?

Wedi ei adnabod fel data personol sensitif o'r blaen, mae hyn yn golygu data am unigolyn sy'n fwy sensitif, ac felly sy'n gofyn am fwy o ddiogelwch. Gallai'r math hwn o ddata yn creu mwy o risgau sylweddol i hawliau sylfaenol a rhyddid rhywun, er enghraifft trwy'i r(h)oi mewn pergyl o wahaniaethu anghyfreithlon. Mae categorïau arbennig yn cynnwys gwybodaeth unigolyn am:

- hil
- Tarddiad ethnig
- Gwleidyddiaeth
- Crefydd
- Aelodaeth Undeb Llafur
- Geneteg
- Biometreg (lle y defnyddir am resymau adnabod)
- Iechyd
- Cyfeiriadedd rhywiol

Yn y rhan fwyaf o achosion lle rydym yn prosesu categorïau arbennig o ddata personol rydym angen y cydsyniad *penodol* y gwrthrych data i'w wneud oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol neu ei bod yn orfodol arnom i'w wneud gan y gyfraith (e.e. i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol i sicrhau iechyd a diogelwch yn y gwaith). Bydd y math hwn o gydsyniad yn adnabod beth yw'r data perthnasol, pam ei fod yn cael ei brosesu ac i bwy bydd yn cael ei ddatgelu.

Cyfrifoldebau

Ein cyfrifoldebau ac Amcanion

- Dadansoddi, dogfennu a chategoreiddio'r math o ddata personol sydd gennym.
- Gwirio gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn cydfynd â'r holl hawliau yr unigolyn.
- Adnabod y sail gyfreithlon i brosesu data
- Sicrhau bod gweithdrefnau yn gyfreithlon
- Gweithredu ac adolygu gweithdrefnau i ddirnad, adrodd ar ac ymchwilio i doriadau data personol.
- Cadw data mewn dulliau diogel
- Asesu'r risg a allai effeithio ar hawliau a rhyddid unigolion pe bai'r data yn cael ei beryglu
- Deall yn llwyr ein rhwymedigaethau diogelwch data
- Gwirio bod unrhyw weithgareddau prosesu data rydym yn ymdrin â nhw yn cydymffurfio â'n polisi ac y gellir eu cyfiawnhau.
- Peidio â defnyddio data mewn dull anghyfreithlon.
- Peidio â chadw data yn anghywir, a pheidio â bod yn ddi-ofal gydag ef, neu greu torri cyfreithiau diogelwch data.
- Cydymffurfio â'r polisi hwn bob amser
- Codi pryderon, rhoi gwybod am unrhyw doriadau neu gamgymeriadau, ac rhoi adroddiad ar unrhywbeth amheus neu yn groes i'r polisi hwn neu i'n rhwymedigaethau cyfreithiol heb oedi.

Swyddogaeth y Swyddog Diogelu Data

- Hysbysu'r bwrdd am y cyfrifoldebau diweddaraf ynghylch diogelwch data, risgau a materion.
- Adolygu gweithdrefnau a pholisïau diogelwch data yn rheolaidd
- Trefnu hyfforddiant diogelwch data a chyngor ar gyfer pob aelod o'r staff a'r rhai y mae'r polisi hwn yn ymdrin â nhw.
- Ateb cwestiynau am ddiogelwch data oddi wrth y staff, aelodau bwrdd a rhanddeiliaid eraill.
- Ateb i unigolion megis cleientiaid a chyflogeion sy'n dymuno gwybod pa ddata amdanynt yn cael ei gadw gennym
- Gwirio a chymeradwyo trydydd partiön sy'n ymdrin â data corfforaethol, unrhyw gytundebau, neu gytundeb ynglŷn â phrosesu data.
- Gwneud trefniadau i ymdrin â Cheisiadau am Fynediad i Wybodaeth.
- Rhoi Adroddiad i ICO tra'n angenrheidiol

Cywirdeb a Pherthnasedd

Byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw ddata rydym yn ei brosesu yn gywir, digonol, perthnasol ac ddim yn ormodol, o ystyried y pwrpas y'i casglwyd amdano. Ni fyddwn yn prosesu data a gasglwyd am y naill pwrpas ar gyfer unrhyw pwrpas anghysylltiedig oni bai fod yr unigolyn dan sylw wedi cydsynio i hyn neu y tybir yn rhesymol iddo ddisgwyl hyn.

Efallai y bydd unigolion yn gofyn i ni gywiro data personol anghywir amdanynt. Os ydym yn credu bod yr wybodaeth yn anghywir yna ymdrechwn i gywiro'r wybodaeth hon gyda chymeradwyaeth y gwrthrych data neu'r rheolwr data.

Diogelwch Data

Mae data yn cael ei gadw'n ddiogel yn unol â fframwaith ISO 27001 yr ardystir TTC iddo.

Os yw cyrff eraill yn prosesu data personol fel gwasanaeth o'n rhan, mae diwydrwydd dyledus yn cael ei wneud i sicrhau bod diogelwch priodol perthnasol i'r prosesu mewn lle, ac os oes angen, bod trefniadau diogelwch data arbennig ychwanegol yn y cytundebau gyda'r cyrff trydydd parti hyn.

Cadw data yn ddiogel

- Mewn achosion lle mae data yn cael ei gadw ar bapur wedi ei argraffu, mae'n cael ei gadw mewn lle diogel lle nad oes mynediad iddo gan staff anawdurdodedig.
- Mae data wedi ei argraffu yn cael ei waredu'n ddiogel pan nad oes angen arno. Am ragor o fanylion gweler – **Polisi Gwaredu Data**
- Mae data ar gyfrifiadur yn cael ei warchod gan gyfrineiriau cryf sy'n cael eu newid yn gyson. Rydym yn annog pob aelod o'r staff i ddefnyddio cyfrineiriau cymhleth sy'n cael eu harchwilio'n gyson. Am ragor o fanylion gweler — **Polisi Cyfrinair**
- Mae'n rhaid i ddata sy'n cael ei gadw ar gyfryngau cludadwy gael ei amgryptio neu'i warchod gan gyfrinair a'i gloi'n ddiogel tra nad oes defnydd ohono.
- Mae'n rhaid i Gyfarwyddwr IT gymeradwyo unrhyw system cadw 'cloud-based' sy'n cael ei ddefnyddio i gadw data.
- Mae gweinyddion sy'n cynnwys data personol yn cael eu cadw mewn lle diogel, lle mae mynediad wedi ei gyfyngu'n sylweddol.
- Mae data yn cael ei gadw wrth gefn yn unol â gweithdrefnau gwneud copi wrth gefn y Cwmni

- Nid yw data yn cael ei gadw yn uniongyrchol ar ddyfeisiau symudol megis gliniaduron, cyfrifiaduron llechen neu ffonau clyfar
- Mae pob gweinydd sy'n cynnwys data sensitif yn cael ei gymeradwyo a'i ddiogelu gan feddalwedd diogelwch.
- Mae pob mesur technegol posibl cyhyd ag sydd yn ymarferol yn cael ei weithredu er mwyn cadw data yn ddiogel.

Cadw Data

Nid ydym yn cadw data personol yn hirach nag sydd raid. Mae'r hyn sydd raid yn dibynnu ar yr amgylchiadau'r ased data neu'r gwrthrych data, gan gymryd i ystyriaeth y rhesymau am gasglu'r fath data, y pwrpas dros bosesu, ac a oes unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol neu gytundebol i'w gwneud. Am ragor o wybodaeth gweler- **Polisi Cadw Data**

Trosglwyddo Data

Bydd Grŵp TTC wastad yn trosglwyddo data sensitif pryd bynnag y bo'n bosibl gan ddefnyddio dull diogel o drosglwyddo, a bydd y dull hwnnw yn cael ei gyfathrebu a'i drefnu gyda derbynnwr. Rydym yn annog i unigolion ac i drydydd partïon ddefnyddio dull trosglwyddo priodol a diogel tra'n anfon data atom. Ar yr anfonwr y mae'r cyfrifoldeb dros ddata ar ei daith.

Trosglwyddo data yn rhyngwladol

Nid yw Grŵp TTC yn trosglwyddo data ar hyn o bryd tu allan i'r Ardal Economaidd Ewrop (EEA). Pe bai galw ar TTC i wneud felly, byddai hyn yn cael ei wneud dim ond yn ôl cytundeb cyfreithlon rhwng y partïon dan sylw.

Hawliau Unigolion

Mae gan unigolion hawliau i'w data y mae'n orfodol arnom eu parchu a chydymffurfio â nhw hyd eithaf ein gallu. Mae'n rhaid i ni sicrhau y gall unigolion arfer eu hawliau yn y dulliau canlynol:

1. Hawl i gael gwybod

- Mae Rhybuddion Preifatrwydd ar waith sy'n gryno, tryloyw, dealladwy a hawdd i'w darllen, yn ddi-dâl, ac wedi eu hysgrifennu mewn iaith glir a syml, yn enwedig os ydynt wedi hanelu at blant.
- Rydym yn cadw cofnod o sut rydym yn defnyddio data personol i ddangos cydymffurfiaeth â'r angen am atebolrwydd a thryloywder.

2. Hawl i fynediad

- Mae unigolion yn gallu cael mynediad i'w data personol a gwybodaeth ychwanegol
- Mae unigolion yn cael gwybod am gyfreithlondeb y gweithgareddau prosesu

3. Hawl i gywiro

- Mae data personol yr unigolyn yn cael ei gywiro neu'i ddiweddararu ar gais y gwrthrych data os yw'n anghywir neu anghyflawn.
- Mae hyn yn cael ei wneud heb oedi, a nid hwyrach na mis. Gall hyn gael ei estyn i ddau fis gyda chaniatâd y DPO a chyda chymeradwyaeth y gwrthrych data.

4. Hawl i ddileu

- Byddwn yn dileu neu waredu data unigolyn ar gais, ac os nad oes rheswm cryf am brosesu ymhellach.

5. Hawl i gyfyngu ar brosesu

- Byddwn yn cydymffurfio ag unrhyw gais i gyfyngu, blocio, neu atal prosesu data personol
- Caniateir i ni gadw data personol os yw wedi cael ei gyfyngu, ond ni ddylem ei brosesu ymhellach. Byddwn yn cadw digon o ddata i sicrhau bydd yr hawl am gyfyngu yn cael ei barchu yn y dyfodol.

6. Hawl i gludo data

- Ar gais byddwn yn darparu i unigolion eu data fel y gallant ei aildefnyddio at eu dibenion eu hunain ar draws wasanaethau gwahanol.
- Byddwn yn ei ddarparu mewn fformat a ddefnyddir yn aml, sy'n ddarllenadwy i beiriant, a'i anfon yn uniongyrchol i reolwr gwahanol os gofynnir i ni.

7. Hawl i Wrthwynebu

- Byddwn yn parchu'r hawl unigolyn i wrthwynebu prosesu data ar sail buddiannau cyfreithlon neu berfformiad tasg o fudd cyhoeddus.
- Byddwn yn parchu hawl unigolyn i wrthwynebu marchnata uniongyrchol, gan gynnwys proffeilio.
- Byddwn yn parchu hawl unigolyn i wrthwynebu prosesu eu data am resymau ymchwil gwyddonol, hanesyddol ac ystadegol

8. Hawliau mewn cysylltiad â phenderfyniadau a phroffeilio awtomatig.

- Byddwn yn parchu hawliau unigolion mewn cysylltiad â phenderfyniadau a phroffeilio awtomatig.
- Mae unigolion yn cadw eu hawl i wrthwynebu'r fath prosesu awtomatig, i gael esbonio iddynt yr rhesymeg, ac i ofyn am ymyrryd dynol

Rhybuddion Preifatrwydd

Darperir rhybudd preifatrwydd ar yr un pryd y bydd data yn cael ei gasglu yn uniongyrchol oddi wrth y gwrthrych data. Os nad yw'r data yn cael ei gasglu'n uniongyrchol oddi wrth y gwrthrych data fe ddarperir y rhybudd preifatrwydd o fewn cyfnod rhesymol ers casglu'r data, fydd yn golygu o fewn mis.

Os yw'r data yn cael ei ddefnyddio i gyfathrebu gyda'r uniogolyn, yna darperir y rhybudd preifatrwydd fan bellaf pan digwydda'r cyfathrebiad cyntaf

Os rhagwelir datgelu data i dderbynnwr arall, yna daperir y rhybudd preifatrwydd cyn bydd data yn cael ei ddatgelu.

Beth mae'r Rhybudd Preifatrwydd yn ei gynnwys

Mae ein Rhybuddion Preifatrwydd yn gryno, tryloyw, dealladwy a hawdd i'w darllen. Fe'u darperir yn ddi-dâl and yn cael eu hysgrifennu mewn iaith glir a symyl, yn enwedig os ydynt yn cael eu hanelu at blant.

Mae gwybodaeth ganlynol yn cael ei chynnwys mewn rhybuddion preifatrwydd i bob gwrthrych data:

- Manylion adnabod a chyswllt y rheolwr data a'r swyddog diogelu data.
- Y pwrpas dros brosesu data
- Y buddiannau cyfreithlon y rheolwr neu drydydd parti, os perthnasol.
- Yr hawl i dynnu cydsyniad yn ôl ar unrhyw amser, os perthnasol
- A yw data yn cael ei rannu gyda thrydydd parti, ac am ba reswm.
- Gwybodaeth fanwl unrhyw drosglwyddo i drydydd gwlad a'r mesurau diogelwch ar waith.
- Yr hawl i gyflwyno cwyn gydag ICO, a gweithdrefnau cwynion mewnol
- Y broses i wrthrych data wneud Cais am Fynediad i Wybodaeth.

Ceisiadau am Fynediad i Wybodaeth

Mae gan unigolyn yr hawl i dderbyn cadarnhad bod eu data yn cael ei brosesu, ac hefyd mynediad i'w data personol ac i wybodaeth ychwanegol, sef y wybodaeth y dylid ei darparu mewn rhybudd Preifatrwydd.

Sut rydym yn trin ceisiadau am Fynediad i Wybodaeth

Byddwn yn darparu i wrthrych data gopi eu data ar gais, yn ddi-dâl. Bydd hyn yn digwydd heb oedi, ac o fewn mis o'i dderbyn. Byddwn yn ymdrechu i ddarparu i wrthrychau data fynediad i'w gwybodaeth mewn fformat electronig sy'n cael ei ddefnyddio'n aml, ac pan fydd yn bosibl, i ddarparu mynediad uniongyrchol i'r wybodaeth trwy system diogel cyrraeddadwy o hirbell. Os nad yw hyn ar gael bydd y trosglwyddo data yn cael ei wneud trwy ddull y cytunwyd arno gan y gwrthrych data.

Os yw cydymffurfio â'r cais yn gymhleth a niferus, gellir estyn y terfyn amser gan ddau fis, ond caiff y gwrthrych data wybod o fewn mis. Dylid cael caniatâd y DPO cyn estyn y terfyn amser.

Caniateir i ni wrthod rhai ceisiadau, a chodi tâl os yw'r cais yn gwbl ddi-sail a gormodol. Os yw'r cais am faint enfawr o ddata caniateir i ni ofyn i'r unigolyn fanylu'r wybodaeth y mae'n chwilio amdani. Dim ond gyda chaniatâd y DPO gellir gwneud hyn.

Wedi i gais gael ei wneud ni wnawn newid na chywiro unrhyw ddata y gofynnir amdano. Mae gwneud hyn yn drosedd.

Am ragor o wybodaeth gweler- **Polisi Ceisiadau am Fynediad i Wybodaeth**

Ceisiadau am gludo data

Byddwn yn darparu'r data mewn fformat strwythuredig, darllenadwy i beiriant, ac sy'n cael ei ddefnyddio'n aml. Fel arfer byddai hyn mewn ffeil CSV, er bod fformat arall yn dderbyniol. Byddwn yn darparu'r data hwn naill ai i'r unigolyn sydd wedi gofyn amdano neu i'r rheolwr data y mae wedi gofyn iddo gael ei anfon ato. Gwneir hyn yn ddi-dâl a heb oedi, ac nid hwyrach na mis. Gellir estyn hyn i ddau fis ar gyfer ceisiadau cymhleth neu niferus, ond dylid rhoi gwybod i'r unigolyn am yr estyniad o fewn mis.

Hawl i Ddileu (Hawl i gael ei anghofio)

Mae gan unigolion yr hawl i gael dileu eu data ac i atal y prosesu yn yr amgylchiadau a ganlyn:

- Os nad yw'r data personol yn angenrheidiol mewn perthynas â phwrpas y'i casglwyd/ y'i proseswyd drosto yn wreiddiol
- Os yw'r cydsyniad wedi ei dynnu'n ôl
- Os yw unigolyn yn gwrthwynebu'r prosesu, ac nad oes buddiannau cyfreithlon pwysicach dros barhau'r prosesu.
- Os cafodd y data personol ei brosesu'n anghyfreithlon neu, fel arall, wedi torri cyfreithiau diogelwch data.
- I gydymffurfio â rhwymedigaeth cyfreithiol
- Os yw'r prosesu yn perthyn i blentyn.

Sut rydym yn ymdrin â'r hawl i ddileu

Gellir gwrthod cydymffurfio â hawl i ddileu dim ond yn yr amgylchiadau canlynol:

- I arfer hawl i ryddid mynegiant a gwybodaeth
- I gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol ar gyfer perfformiad tasg o fudd cyhoeddus neu ar gyfer gweithredu awdurdod swyddogol.
- At ddibenion budd iechyd cyhoeddus er budd y cyhoedd
- Ar gyfer dibenion archifo er budd y cyhoedd, ymchwil gwyddonol, ymchwil hanesyddol neu ddibenion ystadegol.
- I gyflwyno neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

Os yw data personol sydd angen cael ei ddileu wedi cael ei drosglwyddo i bartion neu dderbynwyr eraill fe gysylltir â nhw a cânt wybod eu rhwymedigaeth i ddileu'r data. Ar gais yr unigolyn rhown wybod iddo am y derbynwyr hyn.

Yr hawl i wrthwynebu

Mae gan unigolion yr hawl i wrthwynebu defnydd eu data ar sail amgylchiadau sy'n perthyn i'w sefyllfa penodol. Gwnawn atal prosesu oni bai:

- Fod gennym sail gyfreithlon i brosesu sy'n disodli'r buddiannau, hawliau a rhyddid yr unigolyn.
- Fod y prosesu'n perthyn i sefydlu, cyflwyno ac amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

Byddwn wastad yn rhoi gwybod i'r unigolyn am ei hawl i wrthwynebu ar y man cyswllt cyntaf h.y. y rhybudd preifatrwydd. Byddwn yn cynnig dull i unigolyn wrthwynebu ar-lein.

Yr hawl i gyfyngu ar broffeilio neu benderfyniadau awtomatig.

Byddwn yn gwneud proffeilio neu benderfyniadau awtomatig fydd yn cael effaith cyfreithiol neu effaith sylweddol tebyg ar unigolyn dim ond yn yr amgylchiadau canlynol:

- Mae'n angenrheidiol i ymrwymo i gytundeb neu'i berfformio.
- Seiliedig ar gydsyniad penodol yr unigolyn.
- Fel arall, os oes awdurdod gan y gyfraith.

Yn y fath amgylchiadau byddwn yn:

- Rhoi i'r unigolyn wybodaeth fanwl am y prosesu awtomatig.
- Hysbysu y gellir gofyn am ymyrryd dynol neu herio unrhyw benderfyniad amdano/amdani.
- Gwneud gwiriadau cyson a phroffion defnyddwr i sicrhau bod ein systemau yn gweithio fel y'i bwriadwyd.

Trydydd Partïon

Defnyddio rheolwyr trydydd partïon a phroseswyr

Fel rheolwr a phroseswr data, mae gennym gytundebau ysgrifenedig ar waith gyda rheolwyr a phroseswyr trydydd partïon rydym yn eu defnyddio. Mae'r cytundebau hyn yn cynnwys cymalau penodol sy'n egluro'r rhwymedigaethau a chyfrifoldebau arnom ninnau ac arnynt hwythau.

Fel rheolwr data rydym yn penodi proseswyr sy'n gallu darparu gwarantau digonol o dan GDPR y bydd hawliau gwrthrychau data yn cael eu parchu a'u gwarchod. Rydym yn gofyn am gwblhau Cytundeb Diogelu Data ar gyfer trydydd partïon sy'n prosesu ein data. Mae diwydrwydd dyledus yn cael eu gwblhau ar gyfer prosesyddion sy'n ymgymryd â gweithgareddau risg uchel fel rhan o'u gwasanaeth, ac rydym yn gofyn iddynt lenwi Holiadur Diogelwch Data Trydydd Partïon cyn cychwyn ar ryw wasanaeth. Mae'r holiadur hwn yn cael ei adolygu gan y DPO, Rheolwr IT a'i reoli gyda golwg ar berthynas gyda chyflenwyr cyn ei gymeradwyo.

Fel prosesydd data byddwn yn gweithredu dim ond ar gyfarwyddiadau wedi eu dogfennu gan reolwr. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldebau fel rheolwr data o dan GDPR ac byddwn yn diogelu a pharchu hawliau gwrthrychau data. Os yw'n briodol, ar sail darpariaeth gwasanaeth a sensitifwydd data, bydd Cytundeb Prosesu Data yn cael ei roi ar waith rhwng y rheolwr data a'r prosesydd data.

Cytundebau Prosesu Data

Mae ein cytundebau prosesu yn cydymffurfio â safonau a osodwyd gan yr ICO, ac lle y bo modd, yn dilyn cymalau cytundebol safonol sydd ar gael. Mae rhaid i'n cytundebau gyda rheolwyr data a phrosesyddion data egluro'r destun a'r hyd y prosesu, y natur a phwrpas datganedig y gweithgareddau prosesu, y mathau o ddata personol a chategorïau gwrthrych data, a'r rhwymedigaethau a hawliau'r rheolwr.

Mae ein Cytundebau Prosesu Data yn cynnwys nid llai na'r telerau canlynol sy'n manylu:

- Mae rhai sy'n ymwneud â phrosesu data yn rhwymedig i ddyletswydd o hyder
- Bydd mesurau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau diogelwch y prosesu
- Bydd is-brosesyddion yn cael eu cyflogi dim ond gyda chaniatâd blaenorol gan y rheolwr ac o dan gytundeb ysgrifenedig
- Bydd y rheolwr yn cynorthwyo'r prosesydd wrth ymdrin â cheisiadau i fynediad i Wybodaeth, ac wrth ganiatáu i wrthrychau data weithredu eu hawliau o dan GDPR.
- Bydd y rheolwr yn cynorthwyo'r rheolwr wrth gyflawni ei rhwymedigaethau mewn cysylltiad â diogelu prosesu, adrodd ar doriadau data a gweithredu asesiadau Effaith Diogelwch Data
- Trefniadau ar gyfer gwaredu data neu'i gael yn ôl pan mae cytundeb yn dod i ben.
- Argaeledd i archwiliadau cyson a darpariaeth pa wybodaeth sydd ei angen i'r rheolwr a phrosesydd er mwyn iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol
- Ni fydd unrhywbeth yn cael ei wneud gan y rheolwr na'r prosesydd a allai fynd yn groes i'r GDPR.

Archwiliadau, Monitro a Hyfforddiant

Archwiliadau Data

Bydd archwiliadau cyson i reoli a lleihau risgau yn cael eu nodi ar y gofrestr ddata. Bydd hon yn cynnwys gwybodaeth ar ba data sy'n cael ei gadw, lle bydd yn cael ei gadw, sut bydd yn cael ei ddefnyddio, pwy sy'n gyfrifol ac unrhyw rheoliadau pellach neu amserlenni cadw a allai fod yn berthnasol. Bydd archwiliadau cyson ein gweithdrefnau diogelu data a'n system rheoli diogelwch gwybodaeth yn cael eu cynnal yn unol â'n hachrediadau gyda ISO 9001 & 27001

Monitro

Mae'n rhaid i bawb gydymffurfio â'n polisi hwn. Mae gan y DPO gyfrifoldeb cyffredinol dros y polisi hwn. Bydd Grŵp TTC yn parhau i adolygu'r polisi a'i ddiweddarau a'i newid yn ôl yr angen. Bydd y DPO yn cael ei hysbysu am unrhyw doriadau'r polisi hwn. Bydd cydymffurfiaeth â'r polisi hwn yn llwyr a pharhaol.

Hyfforddiant

Bydd yr holl gyflogeion Grŵp TTC yn cael hyfforddiant digonol ar ddarpariaethau y gyfraith am diogelwch data fel sy'n berthnasol i'w swyddogaethau. Bydd hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu ar gais neu os oes newid mewn swyddogaeth neu gyfrifoldebau.

Rhoi adroddiad am achosion o dorri

Mae'n rhaid rhoi adroddiad am unrhyw doriad y polisi hwn cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol. Mae hyn yn golygu cyn gynted ag y cawn wybod am doriad. Mae gan Grŵp TTC rwymedigaeth cyfreithiol i roi adroddiad am unrhyw achosion o dorri data i'r ICO o fewn 72 awr.

Mae gan bob aelod o staff rwymedigaeth i roi adroddiad am fethiannau cydymffurfio â diogelwch data p'un ai gwirioneddol neu bosibl. Bydd hyn yn ein galluogi i:

- Ymchwilio i fethiant a chymryd camau i'w ddatrys os oes angen
- Cynnal cofrestr o fethiannau cydymffurfio
- Hysbysu'r ICO am fethiannau cydymffurfio sy'n sylweddol ar eu pennau hunain neu fel rhan o batrwm o fethiannau

Bydd unrhyw aelod o staff sy'n methu â rhoi adroddiad am achos o dorri, neu y canfuwyd ei fod/bod wedi amau neu sylwi ar achos o dorri ond wedi methu â dilyn y gweithdrefnau adroddiad priodol, yn destun i weithrediad disgyblu.

Am ragor o wybodaeth gweler – **Polisi Rhoi Adroddiad Diogelwch Data**

Methu â chydymffurfio

Rydym yn cymryd cydymffurfiaeth â'r polisi hwn yn hynod o ddifri. Bydd methu â chydymffurfio yn rhoi yr unigolyn, y rheolwr data a chorff prosesu data mewn perygl.

Mae'r pwysigrwydd y polisi hwn yn golygu y bydd methu â chydymffurfio ag unrhyw ofynion yn arwain at weithrediad disgyblu o dan ein gweithdrefnau, a allai arwain at ddiswyddo.

Bydd methu â chydymffurfio gyda'r polisi hwn neu gyda thelerau a osodwyd yn ein cytundeb /Cytundeb Prosesu Data yn arwain at roi terfyn ar y gwasanaeth hwn

Os oes cwestiynau neu bryderon ynghylch unrhywbeth yn y polisi hwn, mae croeso i chi gysylltu â'r DPO y Grŵp TTC

Polisiâu Ategol

Mae Polisi GDPR Cydymffurfio yn cael ei ategu gan y polisiâu cwmni canlynol sydd ar gael ar gais:

Polisi CCTV
Polisi Diogelwch Cyfrifiadur
Polisi Categoriaddio Data
Polisi Gwaredu Data
Polisi Diogelu Data
Polisi E-byst a Chyfathrebiadau
Polisi Amgryptio
Polisi Protocol Gweithio Gartref
Polisi Diogelwch Gwybodaeth
Polisi Rhannu Gwybodaeth
Polisi Defnyddio'r We
Polisi Rheoli Diogelwch Data– Ymholiadau gan Drydydd Partion
Polisi Dyfeisiadau Symudol
Polisi Archwilio Cefndir -Nid gan yr Heddlu
Polisi Cyfrinair
Polisi Ansawdd
Gweithdrefn Ganfod Firws